CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	6 Rhagfyr 2022
Teitl:	Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22
Pwrpas yr adroddiad:	Sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'i ofynion mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.
Er:	Penderfyniad. Ceisio cymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet cyn cyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan erbyn diwedd mis Mawrth, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, yr Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid (Hyrwyddwr Cydraddoldeb)

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn ein gwaith bob dydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Llesiant mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae'n rhaid adolygu'r cynllun bob pedair blynedd.

Mae'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio yn cael sylw ym Mesur y Gymraeg 2011, yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cydweithredol.

Mae cynllun gweithredu'n sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni, a chaiff ei rannu i 5 Amcan Cydraddoldeb, sef:

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
   Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n ymwybodol o'r anghenion a'r materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
   Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.

3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
   Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.

4. Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau

Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.

5. Addysg Deg a Chynhwysol

Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.

Gellir gweld y cynllun a'r dogfennau cysylltiedig ar Cynllun Strategol Cydraddoldeb & Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Dyma'r ail adroddiad blynyddol ynghylch cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mae'n amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran ein Hamcanion Cydraddoldeb rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Dengys y system lliwiau (BRAG) ba mor dda y mae cam gweithredu'n perfformio neu'n cael ei gyflawni, o gymharu â'r llynedd.

- Glas: Cam gweithredu wedi'i gwblhau
- Coch: Cam gweithredu heb ddechrau / pryderon na fydd y cam gweithredu'n cael ei gwblhau
- Oren: Cam gweithredu ychydig ar ei hôl hi
- Gwyrdd: Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y cynllun

Ffigurau 2021/22 (ffigurau 2020/21 mewn cromfachau)		Glas	Coch	Oren	Gwyrdd
1	Cyflogwr Cyfle Cyfartal	**0** (0)	**0** (0)	**2** (4)	**6** (4)
2	Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn	**1** (0)	**0** (0)	**0** (0)	**5** (6)
3	Ymgysylltu a Chyfranogiad	**0** (0)	**0** (0)	**9** (4)	**3** (8)
4	Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau	**2** (1)	**0** (0)	**4** (4)	**11** (12)
5	Addysg Deg a Chynhwysol	**0** (0)	**0** (0)	**2** (2)	**9** (9)

Y camau gweithredu oren yw:

1. Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy hyfforddiant.

2. Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan

gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor.

3. Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

4. Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu.

5. Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau.

6. Byddwn yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

7. Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed pan fydd yr oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru.

8. Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion.

9. Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y Cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau.

10. Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig.

11. Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu *Dream Team*.

12. Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd.

13. Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned sy'n addas i'r diben er mwyn ateb anghenion iechyd a thai.

14. Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is).

15. Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon aur Insport.

16. NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen. Byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd ym mhob contract caffael y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëir yn cynyddu o'r flwyddyn flaenorol.

17. Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod buddion bod ar-lein.

Uchafbwyntiau 2021/22

- Cyflwynwyd asesiad risg beichiogrwydd diwygiedig. Mae'r asesiad risg bellach yn adlewyrchu'n well y canllawiau presennol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch pobl feichiog yn y gweithle.

- Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb ac i adrodd am unrhyw achosion. Cynhaliwyd digwyddiadau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â throseddau casineb, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, digwyddiad 'Golau Glas' ar gyfer ffoaduriaid, Sesiynau Peilot Casineb Ar-lein a Hyfforddiant *Small Steps* ynghylch yr Asgell Dde.

- Etholwyd Lloyd Warburton, disgybl yn Ysgol Penglais, fel yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion ac roedd hefyd yn aelod gweithgar o Gyngor Ieuenctid Ceredigion.

- Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch a'r Polisi Tai Hygyrch wedi bod yn eu lle ers mis Mehefin 2016. O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gofrestr tai hygyrch ac yn derbyn cynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu.

- Mae perfformiad disgyblion AAA / ADY Ceredigion yn dda. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar, a disgyblion sydd ag anghenion cymhleth.

- Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith mawr ar gynnydd dysgwyr sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, er ein bod ni wedi mynd y tu hwnt i'r targedau: 9.5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel (targed = 5%). 3.4% wedi gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy (targed = 1%). 77.7% o ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar god C-E. O'r rhain mae 56.9% yn gymwys (D) neu rugl (E).

Am fanylion pellach, gweler Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ebrill 2021 - Mawrth 2022, sydd ynghlwm.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**	Naddo, gan nad ydy'r adroddiad hwn yn ymwneud â pholisi newydd na newid i wasanaeth.
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	**Amherthnasol**
	Cydweithio:	**Amherthnasol**
	Cynnwys:	**Amherthnasol**
	Atal:	**Amherthnasol**
	Integreiddio:	**Amherthnasol**

Argymhelliad / Argymhellion:	Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 a chymeradwyo bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Rhesymau dros y penderfyniad:	Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ein bod yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-22 ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31/3/23.
Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-22 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 23/11/2022.
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Gan fod cydraddoldeb yn thema drawsbynciol, mae'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol yn berthnasol: • Hybu'r Economi • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl • Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd • Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Nid un oes unrhyw oblygiadau ariannol, gan fod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Deddf Cydraddoldeb 2010
Goblygiadau Staffio:	Mae cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio ar draws yr holl staff. Mae gan bawb gyfrifoldeb.
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim.
Risg(iau):	Os na fyddwn yn bodloni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd risg o her gyfreithiol a risg i enw da'r Cyngor.
Pwerau Statudol:	Deddf Cydraddoldeb 2010
Papurau Cefndir:	Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion 2020-2024 Cynllun Strategol Cydraddoldeb & Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion
Atodiadau:	Atodiad A- Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2021-2022
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddog Adrodd:	Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Dyddiad:	14/11/2022

Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Awdur: Cathryn Morgan, Partneriaethau a Pherfformiad

Cymeradwywyd gan y Cabinet:

Dyddiad Cyhoeddi:

Cynnwys

Cefndir 3

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol 3

Ymrwymiad i'r Gymraeg 3

Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 4

Sut rydym yn cyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb 4

Llywodraethu Corfforaethol 4

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Ceredigion 5

Nodi, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb 5

Data Cydraddoldeb Defnyddwyr Gwasanaeth 5

Data Cydraddoldeb y Gweithlu 6

Ymgynghori ac Ymgysylltu 6

Asesu ar gyfer Effaith 6

Hyfforddiant Staff 7

Trefniadau Caffael 7

Hygyrchedd 8

Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2021-22 8

Y Prif Bwyntiau o 2021/22 9

Amcan 1 – Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol 9

Amcan 2 – Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn 9

Amcan 3 – Ymgysylltu a chyfranogi 10

Amcan 4 – Urddas, parch a mynediad i wasanaethau 10

Amcan 5 – Addysg deg a chynhwysol 11

Atodiad 1: Ffurflen Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2021 – Mawrth 2022 12

Cefndir

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd sector cyhoeddus ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith bob dydd, wrth ddatblygu polisïau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd a'u gweithwyr eu hunain. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r canlynol:

1. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.
2. Hyrwydd cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
3. Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl sydd â 'nodwedd warchodedig'. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Ymrwymiad i'r Gymraeg

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae hyn yn cael sylw yn y gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg 2011. Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n bwysig ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cyfannol at ystyried anghenion pob cymuned wrth lunio a darparu gwasanaethau.

O dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt (h.y. y cysyniad o'r cynnig gweithredol).

Wrth ystyried sut i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu, mae'n rhaid i'r Cyngor feddwl am yr angen i wneud y canlynol:

- Dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ateb anghenion pobl o grwpiau nodweddion gwarchodedig lle maent yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgaredd arall lle mae nifer anghymesur o isel o bobl o'r fath yn cymryd rhan. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw arbennig i'r modd y bydd yn mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hybu dealltwriaeth a dangos parch at ei gilydd.

Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi eu nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r Dyletswyddau Penodol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cwmpasu:

- Amcanion Cydraddoldeb
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltiad
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth Cydraddoldeb
- Gwahaniaeth mewn Cyflog
- Hyfforddiant Staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol
- Cyhoeddi
- Adolygu (bob pedair blynedd)
- Hygyrchedd

Sut rydym yn cyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb hwn yn nodi ein hymrwymiad at fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n disgrifio cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu Corfforaethol

Mae cydraddoldeb yn thema drawsbynciol yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.

Arweinydd y Cyngor yw Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg enwebedig y Cyngor. Mae Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cael ei sefydlu er mwyn gallu datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024; mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb.

Mae'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'r Gweithgor Cydraddoldeb yn cael eu cefnogi gan Swyddog Cydraddoldeb ac Ymgysylltu'r Cyngor.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Ceredigion

Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 yw'r ail adroddiad ar gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, *'Ceredigion Teg a Chyfartal'.* Fe welwch y cynllun a'r dogfennau cysylltiedig yn Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion – Cyngor Sir Ceredigion

Mae *'Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24'* yn rhestru pum Amcan Cydraddoldeb. Mae cynllun gweithredu yn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.

Y pum Amcan Cydraddoldeb yw:-

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
   Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi eu hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
   Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.

3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
   Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.

4. **Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau**
   Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.

5. **Addysg Deg a Chynhwysol**
   Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.

Nodi, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb

Data Cydraddoldeb Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae gwybodaeth gyfoes am ein dinasyddion, yn enwedig y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig, yn hollbwysig i gefnogi ein cynnydd a chydymffurfio â'r ddyletswydd Cydraddoldeb. Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ddogfen *'Data Cydraddoldeb Ceredigion'* sy'n rhoi gwybodaeth am ddemograffeg cydraddoldeb dinasyddion Ceredigion. Mae'r ddogfen yn cael ei

chadw ar ein safle mewnol CeriNet a dylid ei defnyddio i helpu i ddatblygu asesiadau effaith integredig.

Mae templed ar gyfer ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael ei datblygu gan y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol, ac mae'n ofynnol i bob maes gwasanaeth ddefnyddio'r templedi hyn i gasglu data cydraddoldeb wrth ymgysylltu ac ymgynghori.

Data Cydraddoldeb y Gweithlu

Rydym yn casglu ac yn dadansoddi data am staff sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig trwy ein system AD fewnol CeriNet; fodd bynnag, nid yw'n orfodol i weithwyr ddarparu'r data yma.

Mae'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn y Gweithlu a'r Adroddiad Blynyddol Bwlch Cyfog rhwng y Rhywiau yn cael eu cyhoeddi gan ein Hadran Pobl a Threfniadaeth ar wahân i'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion – Cyngor Sir Ceredigion

Ymgynghori ac Ymgysylltu

O dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion ymgysylltu ac ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchodedig pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol. Mae canllawiau ymgysylltu ac ymgynghori gan y Cyngor ar ei fewnrwyd. Rydym yn adolygu ein canllawiau ar ymgysylltu ac yn gweithio ar Bolisi Ymgysylltu newydd, *'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'.* Disgwylir ymgynghori ar y polisi newydd hwn a'i fabwysiadu yn 2022/23.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol mae ein lefelau ymgysylltu wedi cael eu heffeithio gan bandemig Covid-19. Fodd bynnag, cynhaliwyd sawl ymarfer ymgysylltu llwyddiannus, gan gynnwys arolwg rhanbarthol mawr i gefnogi Asesiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, ceir rhwydwaith cynhwysfawr o fforymau a phartneriaethau yng Ngheredigion y bydd staff yn cyfrannu atynt a lle maent yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft y Cyngor Ieuenctid, Fforwm y Gofalwyr a Fforwm Anabledd Ceredigion.

Asesu ar gyfer Effaith

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyngor Sir Ceredigion, fel corff rhestredig yng Nghymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae hyn yn golygu asesu effaith polisïau ac arferion newydd yn ogystal â newidiadau i bolisïau ac arferion sy'n bodoli, ar y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi datblygu Offeryn Asesu Effaith Integredig. Yn ogystal ag asesu'r effeithiau ar Gydraddoldeb, mae'r offeryn hefyd yn asesu'r effeithiau ar egwyddorion

a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg 2011 (Gofynion Safonau'r Gymraeg) a Rheoli Risg.

Mae'r offeryn wedi cael ei ddiwygio i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. Cafodd cyfanswm o 27 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno gydag Adroddiadau'r Cabinet yn ystod 2021-22.

Hyfforddiant Staff

Lansiodd y Tîm Dysgu a Datblygu System Rheoli Dysgu newydd, Pwll Dysgu Ceredigion. Mae'r adnodd dwyieithog hwn yn cynnig modd i chi gwblhau modiwlau e-ddysgu. Trwy gyflwyno hyfforddiant ar-lein ar Microsoft Teams, mae'r gallu i ddefnyddio 'capsiynau a chyfieithu' wedi gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â nam ar y golwg neu'r clyw.

- 388 o aelodau staff wedi cwblhau'r rhaglen e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gostyngiad o'r 514 o aelodau staff oedd wedi ei chwblhau y flwyddyn ddiwethaf.
- 80 o reolwyr wedi cwblhau'r Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar-lein.
- Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi ei ohirio dros dro oherwydd Covid-19 a'i ailgychwyn yn ddiweddarach; cafodd 3 sesiwn eu darparu, un trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 26 o aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant LHDTC+ ar-lein.
- 57 o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Rhagfarn Ddiarwybod
- 12 o aelodau staff wedi mynychu'r Gweithdy Ymwybyddiaeth o'r Byddar ac Iaith Arwyddion
- 1 aelod o staff wedi ei gefnogi i ddilyn hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain
- 3 sesiwn bwrpasol wedi eu cyflwyno i 15 o Weithwyr Cymdeithasol i wella eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg er mwyn gallu cynnal Asesiadau Llesiant Pennaf ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- 94 o aelodau staff wedi eu cefnogi i ymgymryd ag amrywiaeth o gyrsiau iaith Gymraeg trwy Gynllun Cymraeg Gwaith y Cyngor
- Cafodd sesiynau BAWSO ar Gam-drin Domestig, Amrywiaeth Ddiwylliannol, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod eu hyrwyddo hefyd, ac roeddent ar gael i bob aelod o staff.

Trefniadau Caffael

Mae'r holl gontractau mawr yn cael eu tendro trwy ddefnyddio'r system e-dendro-Cymru ac mae gan 100% o'r rhain gwestiynau ynghylch gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi eu cynnwys ynddynt fel rhan o broses safonedig. Ni chaiff y rhai sy'n cyflwyno tendr ac sy'n methu ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion symud ymlaen i'r cam nesaf.

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi ei gynnwys yn y tendrau hynny fel gwybodaeth safonol. Mae templed manyleb ar gyfer contract safonedig wedi cael ei ddatblygu sy'n gosod gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Cyngor.

Hygyrchedd

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau yn ôl angen ac ar gais. Mae'n ofynnol i bob dogfen gyhoeddus gynnwys y geiriau 'mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, neu mewn fformatau eraill ar gais'. Rydym wedi rhoi canllawiau ar fformatau hygyrch i staff ar ein rhyngrwyd mewnol.

Mae gwefan gyhoeddus y Cyngor yn hollol gydnaws â'r safonau hygyrchedd AA, ac mae 90% o'r cynnwys yn gydnaws â'r safon hygyrchedd AAA. Byddwn yn parhau i ymateb i unrhyw safonau newydd neu newidiadau i dechnoleg wrth iddynt gael eu cyflwyno.

Mae gennym gontract gyda Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (WITS) i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn amgylchiadau lle mae gan y defnyddiwr gwasanaeth sgiliau iaith Gymraeg neu Saesneg cyfyngedig neu ddim sgiliau iaith. Mae canllawiau a chyfarwyddiadau 'sut i gael gwasanaeth cyfieithu' wedi cael eu cyhoeddi, ac maent ar gael i bob aelod o staff ar y safle mewnol CeriNet.

Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2021-22

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei hun yn strategaeth pedair blynedd, ond rydym yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. Mae'r Adroddiad Monitro 2021-22 llawn ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w weld yn Atodiad 1.

Mae system 'GCOG' yn dangos pa mor dda y mae can gweithredu yn perfformio neu'n cael ei gyflawni.

Mae cyfansymiau statws 'GCOG' ar gyfer 2021/22 i'w weld isod.

Statws GCOG	Diffiniad	Cynnydd 2021-22
Glas	Cam gweithredu wedi ei gwblhau	3
Coch	Cam gweithredu heb ddechrau / mae pryderon na chaiff ei gwblhau	0
Oren	Cam gweithredu ychydig ar ei hôl hi	17
Gwyrdd	Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl	34

Hwn yw'r ail adroddiad ar gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

- 3 cham gweithredu (6%) wedi eu cwblhau (1 cam gweithredu yn 2020-21).
- Dim camau gweithredu wedi eu marcio'n 'Goch' (0 cam gweithredu yn 2020-21).
- 17 cam gweithredu (31%) ychydig ar ei hôl hi o ran cyrraedd y targed. Daw'r mwyafrif o'r rhain o dan yr amcan Ymgysylltu a Chyfranogiad, ac mae hyn i'w briodoli'n rhannol i effeithiau pandemig Covid-19 (14 cam gweithredu yn 2020-21).
- 34 cam gweithredu (63%) ar y gweill ac yn mynd yn ôl y disgwyl (39 cam gweithredu yn 2020-21).

  Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd pob Amcan Cydraddoldeb.

Ffigurau 2021/22 (ffigurau 2020/21 mewn cromfachau)		Glas	Coch	Oren	Gwyrdd
1	Cyflogwr Cyfle Cyfartal	**0** (0)	**0** (0)	**2** (4)	**6** (4)
2	Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn	**1** (0)	**0** (0)	**0** (0)	**5** (6)
3	Ymgysylltu a Chyfranogi	**0** (0)	**0** (0)	**9** (4)	**3** (8)
4	Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau	**2** (1)	**0** (0)	**4** (4)	**11** (12)
5	Addysg Deg a Chynhwysol	**0** (0)	**0** (0)	**2** (2)	**9** (9)

Y Prif Bwyntiau o 2021/22

Amcan 1 – Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol

Mae asesiad risg beichiogrwydd diwygiedig wedi cael ei gyflwyno. Mae hyn yn adlewyrchu'n well canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar bobl feichiog yn y gweithle. Gall gweithwyr beichiog ofyn am gyngor a chefnogaeth gan y Swyddog Iechyd a Llesiant Gweithwyr, y Tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm absenoldeb AD.

Mabwysiadwyd addasiadau dros dro i oriau gwaith hyblyg. Mae hyn wedi ei gytuno i helpu i leddfu'r pwysau a ddaw trwy weithio gartref ar y rhai sydd â theuluoedd.

Mae'r Polisi Gofalwyr wedi cael ei weithredu sy'n cynnwys y Pasbort Gofalwyr. Mae'r Pasbort Gofalwyr yn cynnig modd i weithwyr sy'n ofalwyr di-dâl ddefnyddio hyd at 5 diwrnod o wyliau â thâl ar gyfer ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofalu.

Amcan 2 – Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn

Mae'r tîm Cydlyniad Cymunedol yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac adrodd amdanynt. Mae digwyddiadau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â throseddau casineb wedi parhau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Digwyddiad 'Golau Glas' i ffoaduriaid
- Sesiynau Peilot Casineb Ar-lein
- Hyfforddiant ar Eithafiaeth Asgell Dde Small Steps

Cynhelir cyfarfodydd monitro tensiwn aml-asiantaeth yn wythnosol. Mae'r rhain wedi cynnig modd i'r tîm Cydlyniant Cymunedol fonitro a lliniaru amrywiaeth o densiynau cymunedol yn llwyddiannus.

Amcan 3 – Ymgysylltu a chyfranogi

Wedi ei hethol fel ein Haelod newydd ar gyfer Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, roedd Poppy Evans o Ysgol Uwchradd Aberaeron wedi chwarae rôl amlwg wrth eirioli ar ran pobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion.

Cafodd Lloyd Warburton, disgybl yn Ysgol Penglais, ei ethol fel Aelod newydd o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion, a bu'n aelod gweithgar hefyd o Gyngor Ieuenctid Ceredigion.

Parhaodd Cyngor Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion â'i raglen rithiol gan sicrhau bod gan y 22 o bobl ifanc sy'n cynrychioli Ysgolion Uwchradd Ceredigion, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion a'r Porth Cymorth Cynnar (gwasanaeth Cymorth ac Atal) lwyfan ystyrlon i gymryd rhan.

Rhoddodd y Gwasanaethau Democrataidd gyflwyniad i Gyngor Ieuenctid Sir Ceredigion ynghylch 'Pleidleisio yn 16' a sut i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2022. Aelodau'r Cyngor Ieuenctid gafodd y dasg o rannu'r wybodaeth â'u cyfoedion (rhannwyd y cyflwyniad).

Parhaodd cyfarfodydd gyda'r Fforwm Anabledd ar-lein. Yn ystod 2021-22 trafododd y fforwm yr Asesiad o Lesiant Lleol, Dyfodol Canol Trefi, Parcio ar y Palmant, yr Argyfwng Costau Byw, y Cynllun Llesiant Lleol a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol.

Amcan 4 – Urddas, parch a mynediad i wasanaethau.

Mae Covid yn parhau i gael effaith sylweddol ar lefel y rhai sy'n manteisio ar y cynllun Ymuno. Cyn Covid roedd 18 o blant wedi eu cofrestru ond dim ond un plentyn gafodd ei gefnogi gan Ymuno i fynychu lleoliad gofal plant y tu allan i'r ysgol yn 2020/21.

Mae carfan gyntaf Camu 'Mlaen (myfyrwyr ôl-16 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol) wedi cwblhau eu hail flwyddyn yn llwyddiannus. Ceir cydweithio effeithiol i sicrhau darpariaeth ôl-16 ddi-dor tan eu bod yn oedolion.

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gofrestr Tai Hygyrch ac yn derbyn cynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at y ffaith bod 15% o geisiadau i'r Gofrestr Tai yn gofyn am ryw fath o eiddo hygyrch.

Mae mynediad i'r anabl (neu ddiffyg mynediad i'r anabl) yn faen prawf ar gyfer sgorio/asesu gwaith wrth lunio'r rhestr wedi ei blaenoriaethu o gynnal a chadw a/neu wella troedffyrdd a cherbytffyrdd. Gyda chyllidebau'n lleihau, bydd yn rhaid lleihau nifer y cynlluniau adnewyddu troedffyrdd a'r cynlluniau gwella a chynnal a chadw priffyrdd, ac o ganlyniad bydd y cyfle i wella hygyrchedd hefyd yn lleihau.

Mae 100% o'n gwefan gorfforaethol bellach wedi cyrraedd sgôr hygyrchedd o AA. Mae gan dros 90% o'r wefan sgôr hygyrchedd o AAA.

Amcan 5 – Addysg deg a chynhwysol.

Mae pob ysgol wedi cwblhau ei Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol unigol erbyn hyn.

Mae'r polisi gwrth-fwlio wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet. Mae gan bob ysgol gopi o'r polisi sy'n cael ei adolygu'n flynyddol yn ystod tymor yr hydref

Mae perfformiad disgyblion Ceredigion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Addysgol Ychwanegol yn dda. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar, a disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae cydnabyddiaeth gynnar yn sicrhau bod disgyblion yn cael ymyrraeth gynnar a chymorth i fodloni eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar gynnydd dysgwyr sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, er i ni wneud yn well na'r targedau: symudodd 9.5% o ddisgyblion i fyny lefel (targed = 5%). Gwnaeth 3.4% 2 lefel neu fwy o gynnydd (targed = 1%). Mae 77.7% o ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar godau CE. O'r rhain, mae 56.9% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).

Mae disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant i ddysgu sut i addasu/cynnwys eraill mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae 108 o Lysgenhadon Ifanc Efydd wedi eu hyfforddi bellach mewn Cynhwysiant Anabledd, a byddant yn arwain sesiynau gweithgareddau corfforol cynhwysol. Mae 12 arall i ddilyn. Yn ogystal, mae 13 o Lysgenhadon 'Chwarae i Bawb' sydd wedi eu lleoli yn yr Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgolion uwchradd sydd wedi eu hyfforddi mewn sgiliau arweinyddiaeth.

Atodiad 1: Ffurflen Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Amcan 1: Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol. Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff sydd wedi eu hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion cysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.			
Cam Gweithredu 1.1	Byddwn yn monitro ac yn cau'r gwahaniaeth posibl yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu yn flynyddol.	**Swyddog Arweiniol: Geraint Edwards, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Parhau i gau'r blwch cyflog rhwng y rhywiau.			
Cynnydd 2021/22: Caiff adroddiad Bwlch Cyflog yn y Gweithlu ar gyfer 2021/22 ei gynhyrchu erbyn diwedd Hydref 2022 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd.			
Cam Gweithredu 1.2	Byddwn yn parhau i gasglu data am gydraddoldeb yn y gweithlu a sgiliau Cymraeg gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu yn flynyddol.	**Swyddog Arweiniol: Geraint Edwards, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Cynnydd yn nifer y staff sy'n datgelu data cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg.			
Cynnydd 2021-22: • Mae data cydraddoldeb yn y gweithlu a sgiliau Cymraeg yn cael eu casglu gan yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor, ac mae staff presennol yn cael eu hatgoffa yn flynyddol i ddiweddaru eu data cydraddoldeb trwy hunanwasanaeth Ceri. Mae diweddaru data sgiliau iaith Gymraeg wedi ei gynnwys yn y broses arfarnu flynyddol. • Caiff yr Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu ar gyfer 2021/22 ei gynhyrchu erbyn diwedd Hydref 2022 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo trwy'r broses ddemocrataidd.			

Cam Gweithredu 1.3	Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy hyfforddiant.	**Swyddog Arweiniol: Debbie Ayriss, Pobl a Threfniadaeth**	**Oren**

Canlyniadau:
Mwy o staff yn cwblhau e-ddysgu gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
Mwy o reolwyr yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
Mwy o staff yn cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth LHDT.

Cynnydd 2021/22:

Lansiodd y Tîm Dysgu a Datblygu System Rheoli Dysgu newydd, Pwll Dysgu Ceredigion, sef darpariaeth ddwyieithog sy'n golygu y gellir cwblhau modiwlau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Trwy hyfforddiant ar-lein ar Microsoft Teams, mae'r gallu i ddefnyddio 'capsiynau a chyfieithu' hefyd wedi gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â nam ar y golwg neu'r clyw.

- 388 (336 o aelodau staff mewnol a 52 o aelodau staff allanol) wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- 80 o reolwyr wedi cwblhau'r sesiwn hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar-lein.
- 26 o aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant LHDTC+ ar-lein.
- 57 o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Rhagfarn Ddiarwybod
- 44 (35 o aelodau staff mewnol a 9 aelod o staff allanol) wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amrywiaeth a Diwylliant
- 12 o aelodau staff wedi mynychu'r Gweithdy Ymwybyddiaeth o'r Byddar ac Iaith Arwyddion
- 1 aelod o staff wedi ei gefnogi i ddilyn hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain
- 3 sesiwn bwrpasol wedi eu cyflwyno i 15 o Weithwyr Cymdeithasol i wella eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg er mwyn gallu cynnal Asesiadau Llesiant Pennaf ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- 94 o aelodau staff wedi eu cefnogi i ymgymryd ag amrywiaeth o gyrsiau iaith Gymraeg trwy Gynllun Cymraeg Gwaith y Cyngor
- Cafodd sesiynau hyfforddi ar Gam-drin Domestig, Amrywiaeth Ddiwylliannol, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod eu hyrwyddo hefyd ac roeddent ar gael i bob aelod o staff.

Cam Gweithredu 1.4	Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle).	**Swyddog Arweiniol: Geraint Edwards, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mwy o benodiadau wedi eu cofnodi fel pobl sydd ag anabledd.			
Cynnydd 2021-22: Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn rhan sefydledig o weithdrefnau recriwtio'r Cyngor ac wedi ei gynnwys yn y rhaglen orfodol Rhaglen Hyfforddiant Rheolwyr Ceredigion. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 81 o geisiadau gan unigolion a gofnododd fod ganddynt anabledd, a phenodwyd 13 yn llwyddiannus i rolau yn y Cyngor.			
Cam Gweithredu 1.5	Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad *'Gwahaniaethu yn erbyn Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithlu*: *Argymhellion ar gyfer Newid.'*	**Swyddog Arweiniol: Geraint Edwards, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mae'r meysydd gweithredu wedi eu mabwysiadu.			
Cynnydd 2021/22: • Mae asesiad risg beichiogrwydd diwygiedig wedi ei gyflwyno ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan adlewyrchu canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenywod beichiog a gweithleoedd. • Mae cyngor a chymorth ar gael i weithwyr beichiog gan y Swyddog Iechyd a Llesiant Gweithwyr, y Tîm Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Absenoldeb AD. • Bydd adolygiad o'r Polisi Cymorth Mamolaeth yn cael ei gynnal fel rhan o ddadgyfuno'r polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith y disgwylir iddo gael ei gynnal yn ystod 2022/23.			
Cam Gweithredu 1.6	Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, trefniadau gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.	**Swyddog Arweiniol: Geraint Edwards, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Polisïau gweithio'n hyblyg a gweithio ystwyth diwygiedig wedi eu gweithredu.			

Cynnydd 2021/22:

- Addasiadau dros dro wedi cael eu gwneud i'r cynllun gweithio'n hyblyg o ganlyniad i'r orfodaeth i weithio gartref yn ystod Coivd-19. Mae'r addasiadau dros dro a wnaed yn ystod y cyfnod clo cychwynnol wedi cael eu hymestyn i helpu staff sy'n jyglo cyfrifoldebau rhieni a gofalu yn ystod pandemig Covid-19.
- Mae Polisi Gofalwyr wedi cael ei weithredu sy'n cynnwys Pasbort Gofalwyr, gan gynnig modd i weithwyr ddefnyddio hyd at 5 diwrnod o wyliau â thâl ar gyfer ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofalu.
- Mae gwaith wedi dechrau ar y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro gan amlinellu'r cyfle i staff ddewis ble maent yn gweithio cyn belled â'u bod mor gynhyrchiol gartref ag y maent yn y swyddfa, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y rheolwr llinell. Bydd y Polisi'n cael ei roi ar waith yn ystod 2022/23 yn dilyn cymeradwyaeth trwy'r broses ddemocrataidd.
- Disgwylir i ddadgyfuno'r Polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith ddigwydd yn ystod 2022/23.

Cam Gweithredu 1.7	Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor.	**Swyddog Arweiniol: Mark Gleeson, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**

Canlyniadau:
Llai o wahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau.
Mwy o brentisiaid Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac anabl.

Cynnydd 2021/22:

Data prentisiaethau Hyfforddiant Ceredigion Training:

- Rhyw: 71 o brentisiaid. Gwryw – 65 (92%); Benyw – 6 (8%)
- Ethnigrwydd: 71 o brentisiaid. Gwyn – 48 (68%); Gwyddelod Gwyn – 23 (32%).
- Anabledd: 71 o brentisiaid. 8 (11%) yn nodi bod ganddynt Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig/Anawsterau Dysgu Cymedrol, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu Ddyslecsia.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei bolisi ar fuddion cymunedol a chanllawiau i dendrwyr ar gyfer contractau mwy y Cyngor. Mae canllawiau ar fuddion cymunedol wedi cael eu darparu ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron, gwelliannau i Ysgol Uwchradd Aberteifi, ysgol newydd Dyffryn Aeron ac Ysgol Gynradd Aberteifi.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu 'rhestr dymuniadau Budd Cymunedol' lle gall elusennau, grwpiau a sefydliadau lleol hyrwyddo prosiectau ac mae hyn yn cael ei rannu â chontractwyr sy'n chwilio am syniadau am fuddion cymunedol i'w cefnogi. Cysylltwyd â rheolwyr yn y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o fuddion cymunedol a nodi derbynwyr posibl yng Ngheredigion i'w cynnwys yn y rhestr dymuniadau.			
Cam Gweithredu 1.8	Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, er enghraifft, gwarchod yn erbyn contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr.	**Swyddog Arweiniol: Debbie Ayriss, Pobl a Threfniadaeth**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Mwy o sesiynau Caethwasiaeth Fodern wedi cael eu darparu, mwy o staff wedi eu mynychu. Mwy o sesiynau Masnachu mewn Plant a Phobl wedi cael eu darparu.			
Cynnydd 2021/22: • 3 sesiwn Ymwybyddiaeth o Fasnachu mewn Plant a Phobl yn 2020 gyda 44 o staff yn bresennol, mwy o sesiynau wedi eu cynllunio ar gyfer 22/23 • 36 (23 o staff mewnol ac 13 o staff allanol) wedi mynychu hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern ac mae rhaglen o ddigwyddiadau rheolaidd wedi ei threfnu erbyn hyn • 10 o aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant Diogelu Pobl rhag cael eu Cam-drin sy'n gysylltiedig â diwylliant a chrefydd • 13 o aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant Camfanteisio'n Droseddol ar Blant, Llinellau Sirol, Troseddau Cyllyll a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant • 32 o aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Atal (gan gynnwys WRAP) • 11 o aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Atal a Channel Panel • Sesiynau Troseddau Casineb a Chyfeillio wedi eu trefnu ar gyfer 22/23			

Amcan 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn. Meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu trwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofn trais a chamdriniaeth a chael eu trin â pharch.			
Cam Gweithredu 2.1	Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion o gymunedau cydlynus.	**Swyddog Arweiniol: Kay Howells,**	**Gwyrdd**

		Cydlyniant Cymunedol	
Canlyniad: Fframwaith Cydlyniant Cymunedol i'w ddatblygu a'r canlyniadau i'w cyflawni.			
Cynnydd 2021-22: Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn un o 8 tîm rhanbarthol ar draws Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw cynnig dull cyson ar gyfer gweithredu Cydlyniant Cymunedol ar draws Cymru. Mae'r tîm yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu blynyddol ac wedi cwblhau'n foddhaol y camau gweithredu a sefydlwyd ar gyfer 2021/22.			
Cam Gweithredu 2.2	Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chymorth.	**Swyddogion Arweiniol: Naomi McDonagh, Partneriaethau a Pherfformiad / Kay Howells, Cydlyniant Cymunedol**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Mwy o sesiynau Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb wedi cael eu darparu. Mwy o staff wedi eu mynychu.			
Cynnydd 2021-22: Mae'r tîm yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac adrodd amdanynt. **Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb** (Hydref 2021) Arweiniodd y tîm grŵp rhanbarthol oedd wedi cydlynu gweithgareddau Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Arweiniodd y tîm cydlyniant nifer o brosiectau yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb: 1. Prosiect "Dylunio Crys T Amrywiaeth" Ysgolion/Grwpiau Ieuenctid mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr. Cafodd yr enillwyr wybod ym mis Ionawr 2022 gyda'r Cynghorwyr yn cyflwyno Crysau T i'r enillwyr, cafodd datganiad i'r wasg ei gyhoeddi a thystysgrifau eu cyflwyno i bawb oedd wedi cymryd rhan.			

2. Cynhaliwyd Bore Coffi Rhithiol, mewn cydweithrediad â Chymorth i Ddioddefwyr, gan weithio gyda'r trydydd sector i annog pobl i fynychu. Canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i adrodd amdanynt. Roedd tua 50 o bobl yn bresennol yn y bore coffi.
3. Slotiau ar y cyfryngau cymdeithasol gydag Awdurdodau Lleol ac annog partneriaid i'w ailrannu yn ystod yr wythnos.
4. Wedi rhannu ffilm 1 munud y tîm Cydlyniant Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
5. Hyrwyddo digwyddiad ar Hawliau Mudwyr ar draws y rhanbarth.
6. 4 digwyddiad ar-lein cyn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb mewn cydweithrediad â Chymorth i Ddioddefwyr i godi ymwybyddiaeth o'r wythnos.
7. Ffilm a chwis cydlyniant fel rhan o becyn HWB Cymorth i Ddioddefwyr i ysgolion.

Digwyddiad Golau Glas

Gan weithio gyda'r Arweinydd Ffoaduriaid yng Nghyngor Ceredigion a'r Groes Goch Brydeinig, cydlynodd y tîm Cydlyniant ddigwyddiad golau glas yn Aberystwyth i hyrwyddo a normaleiddio'r pwysigrwydd o ddeall sut i gael cymorth gan y gwasanaethau brys ar adegau priodol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau byr, wedi eu cyfieithu gan y tîm Cydlyniant Cymunedol, yr Heddlu, Tân, Ambiwlans a'r RNLI, tîm Ymgysylltu Hywel Dda a Chymorth i Ddioddefwyr. Trwy gynnal digwyddiad o'r natur hwn, y gobaith yw y bydd mwy o'n teuluoedd yn teimlo'n ddigon hyderus i gael mynediad at wasanaethau allweddol yn y dyfodol. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar 17 Mawrth a bu tua 25 o bobl o Syria ac Afghanistan yn bresennol.

Sesiwn Beilot Casineb Ar-lein

Ar y cyd â Chymorth i Ddioddefwyr, cynhaliodd y tîm ddigwyddiad Casineb Ar-lein. Hyrwyddwyd y digwyddiad, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021, gan weinyddwyr Facebook (ardal leol/grwpiau â diddordeb). Cafodd ei hyrwyddo'n gyffredinol hefyd ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar ddechrau Chwefror. Ymhlith y grwpiau Facebook cymunedol lleol a gynrychiolwyd roedd Grŵp Cymunedol Doc Penfro, Fforwm Cymunedol Aberaeron, Ennyn Cymru, Cefnogi Ffoaduriaid yn Sir Benfro, Llanelli Standard, Cymunedau Gyda'i Gilydd Aber-miwl, Hyb Cymunedol Llanbedr Pont Steffan, Gwrthryfel Difodiant Aberystwyth, Meghan a'r garfan fwyd a Sir Benfro Ddigartref. Mynychodd 38 o bobl y sesiwn beilot ac roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol. VS 2022 Online Hate Pilot_Report_Final.pdf. Y gobaith yw y gallai'r sesiwn gael ei chyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru ac y gellid ehangu cynulleidfaoedd.

Hyfforddiant Eithafiaeth Asgell Dde Small Steps

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a gwrth-naratif ar weithgarwch asgell dde. Mae Small Steps yn cyflogi aelodau staff sy'n gyn-weithredwyr asgell dde eithafol, ac mae hyn yn rhoi'r fantais o gynnwys pobl sydd wedi byw'r profiad. Mae'r hyfforddiant yn amlinellu'r cwynion a ddefnyddir gan yr asgell dde eithaf, dadansoddiad o weithgarwch lleol a chenedlaethol, technegau recriwtio ac esbonio syniadau gwrth-naratif.

Wedi gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i rannu deunyddiau ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar gyfer dinasyddion o Wcráin sy'n byw yn y rhanbarth mewn ieithoedd cymunedol perthnasol. Mae'r tîm yn mynychu'r Grŵp Troseddau Casineb sy'n cael ei redeg gan Heddlu Dyfed Powys sy'n rhoi trosolwg strategol o'r sefyllfa yn ein rhanbarth.			
Cam Gweithredu 2.3	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu'r adroddiadau o gam-drin domestig a roddir i'r gwasanaeth Goleudy (Cymorth i Ddioddefwyr),	**Swyddogion Arweiniol: Sian Howys Porth Cynnal / Amy Taylor Cydlynydd Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**	**Glas**
Canlyniadau: Mwy o staff wedi cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mwy o sesiynau Gofyn a Gweithredu wedi eu cwblhau.			
Cynnydd 2021-22: Mae systemau wedi eu sefydlu ac yn cyfeirio achosion risg isel i Goleudy.			
Cam Gweithredu 2.4	Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n gysylltiedig â Brexit.	**Swyddogion Arweiniol: Naomi McDonagh, Partneriaethau a Pherfformiad / Kay Howells Cydlyniant Cymunedol**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mwy o ymyraethau a lleihau gwrthdaro.			

Cynnydd 2021-22:

Rydym yn monitro tensiynau cymunedol mewn sawl ffordd:

Mae monitro tensiynau wythnosol yn parhau gyda phartneriaid yn ymuno â'r galwad gan Heddlu Dyfed Powys, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Cyngor Hil Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac adrannau gwahanol o'r Cyngor, gan gynnwys y Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tai a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae'r tîm Cydlyniant a phartneriaid wedi nodi a lleddfu'n llwyddiannus amrywiaeth o densiynau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyfathrebu'n berthnasol ynghylch tanau gwyllt, rhannu cuddwybodaeth ynghylch mudiadau protest, a llunio datganiad i'r wasg ar y cynnydd mewn graffiti asgell dde/hiliol yn Aberystwyth.

Sganio'r cyfryngau cymdeithasol/ffynonellau ar-lein yn rheolaidd i fonitro materion a thensiynau. Materion allweddol wedi cael eu cofnodi a'u codi mewn cyfarfodydd monitro tensiwn.

Mae'r tîm Cydlyniant yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP)/CONTEST (Gwrthderfysgaeth)/Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, cyfarfod Adsefydlu Ffoaduriaid Ceredigion a Grŵp Llywio Sipsiwn-Teithwyr a chyfarfodydd sy'n cefnogi ailsefydlu pobl o Wcráin.

Cyfarfodydd wythnosol wedi newid i fod yn gyfarfodydd rhanbarthol bob pythefnos yn ymwneud â brechiadau Covid ar gyfer grwpiau agored i niwed/anodd eu cyrraedd.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd ford gron cenedlaethol o'r Grŵp Diddordeb Arbennig ar Atal Eithafiaeth i drafod gweithgarwch asgell dde yn ein rhanbarth ac wedi ei dargedu'n genedlaethol yn erbyn grwpiau ffoaduriaid a mudwyr.

Cam Gweithredu 2.5	Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd y Swyddfa Gartref, ac yn darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol.	**Swyddogion Arweiniol: Kay Howells, Cydlyniad Cymunedol / Arwyn Morris, Cyswllt Cwsmeriaid**	**Gwyrdd**

Canlyniad: Mwy o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Ngheredigion yn gwneud cais i'r cynllun.

Cynnydd 2021-22:

Datblygwyd taflen ffeithiau i rannu gwybodaeth yn ymwneud â chyfnod pontio Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, y gellid ei defnyddio i gefnogi trafodion â dinasyddion yr UE ac sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â thai, digartrefedd a materion budd-daliadau, gwasanaethau cymdeithasol a darpariaeth iechyd meddwl i oedolion a phlant, yn ogystal â gwybodaeth AD. Mae'r daflen ffeithiau wedi ei dylunio gyda'r nod o gael ei dosbarthu o fewn adrannau amrywiol er mwyn i ni staff gyfeirio ati yn ôl yr angen.

Cam Gweithredu 2.6	Byddwn yn parhau i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r cyfryngau yn flynyddol. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, a Diwrnod Cofio'r Holocost.	**Swyddogion Arweiniol: Tîm Cyfathrebu Allanol / Kay Howells, Cydlyniad Cymunedol**	**Gwyrdd**

Canlyniad: Mwy o ymgyrchoedd wedi eu cynnal.

Cynnydd 2021-22:

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod: dim gweithgarwch penodol ond postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi eu creu ar 9 Mawrth 2021.

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a thrwy gydol y flwyddyn: Rhannwyd cyfres o ddeunyddiau graffeg a gynhyrchwyd gan Droseddau Casineb Cymru a'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Mehefin, Hydref, Rhagfyr, Ionawr, Chwefror a Mawrth.

Diwrnod Cofio'r Holocost: Llun yn dangos adeiladau'r Cyngor wedi eu goleuo wedi cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol ar 27 Ionawr 2022. Datganiad i'r wasg wedi ei gyhoeddi ar 24.01.2022 www.ceredigion.gov.uk/preswylydd/newyddion/cyngor-sir-ceredigion-i-marcio-diwrnod-cofio'r holocost/

Mae'r tîm Cydlyniant yn cefnogi calendr blynyddol o ddiwrnodau ac ymgyrchoedd cenedlaethol, gan gydweithio'n agos â'r tîm Cyfathrebu i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth a digwyddiadau hanesyddol penodol. Yn ystod 2021/22 hyrwyddodd a chefnogodd y tîm nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys:

- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (gweler 2.2).
- Mis Pride – cyfryngau cymdeithasol
- Mis Hanes Pobl Dduon – cyfryngau cymdeithasol
- Wythnos Rhyng-ffydd – cyfryngau cymdeithasol
- Diwrnod Rhyngwladol Anabledd – cyfryngau cymdeithasol

- Diwrnod Cofio'r Holocost – negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Mis Hanes LHDT – postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor.
- Wythnos Ffoaduriaid – fideo wedi ei lansio yn ymwneud ag adsefydlu llwyddiannus teuluoedd o Syria ar draws y rhanbarth.
  https://www.dropbox.com/s/vnp1eqlajdve5co/RefugeeProject_v5.0.ENG.mp4?dl=0
  https://www.dropbox.com/s/eu6zjicugb2vfnh/RefugeeProject_v5.0.CYM.mp4?dl=0

Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfranogi Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau a chael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.			
Cam Gweithredu 3.1	Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig, ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.	**Swyddogion Arweiniol: Cathryn Morgan Partneriaethau a Pherfformiad (a phob maes gwasanaeth i'w weithredu)**	**Oren**
Canlyniadau: Yr ymgysylltu a wneir yn ystyrlon. Pobl yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau. Cyhoeddi adroddiad ar ymarferion Ymgysylltu yn flynyddol.			
Cynnydd 2021-22: Ymarferion ymgysylltu wedi parhau, er bod llai ohonynt, oherwydd y pandemig parhaus. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu rhanbarthol eang i gefnogi'r Asesiad o Lesiant Lleol.			
Cam Gweithredu 3.2	Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu.	**Swyddog Arweiniol: Cathryn Morgan,**	**Oren**

		Partneriaeth a Pherfformiad	
Canlyniad: Polisi Ymgysylltu wedi cael ei gyhoeddi a'i weithredu. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu.			
Cynnydd 2021-22: Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r Polisi Ymgysylltu i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021 lle cafodd ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2021-22. Fodd bynnag, bu oedi gyda'r ymgynghoriad oherwydd gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i ymgynghori ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor a'i hadolygu. Rhaid i hyn ddigwydd yn dilyn etholiad Cyngor Lleol. Felly ataliwyd y broses a bydd yn ailddechrau yn dilyn yr Etholiadau Cynghorau Lleol ym mis Mai 2022. Bydd y polisi drafft yn disgrifio dulliau Ymgysylltu a Chyfranogiad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.			
Cam Gweithredu 3.3	Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau.	**Swyddogion Arweiniol: Nia Jones, Gwasanaethau Democrataidd / Gwion Bowen, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**
Canlyniadau: Targedau penodol wedi eu cyhoeddi mewn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2018-21 Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Rhaglen e-ddysgu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei datblygu, a disgwylir ei lansio gyda staff yn 2020			
Cynnydd 2021-22: <u>Blaenoriaeth 4: Cyngor Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion</u> Parhaodd Cyngor Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion â'i raglen rithwir gan sicrhau bod gan y 22 o bobl ifanc sy'n cynrychioli holl Ysgolion Uwchradd Ceredigion, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion a'r gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar: Cymorth ac Atal lwyfan ystyrlon i gymryd rhan. Oherwydd y pandemig cynhaliwyd 5 cyfarfod rhithiol yn ystod y cyfnod hwn ar HWB Teams gan gynnwys digwyddiad rhithiol ar ddiwedd y flwyddyn 'Dyfodol Ni'. Roedd y digwyddiad 'Dyfodol Ni' yn gyfle i aelodau o'r Cyngor Ieuenctid drafod gyda Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a Ben			

Lake AS am y materion sy'n bwysig i bobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion. Agorwyd a chaewyd y digwyddiad gan ein cyn Aelod o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, Huw Jones sy'n cynrychioli Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar Gyngor Ieuenctid Ceredigion.

Roedd cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid yn gyfle i rannu gwybodaeth ac ymgynghori ag aelodau ar ystod eang o bynciau gan gynnwys, er enghraifft, 'Pleidleisio yn 16', 'Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion', 'Prosiect Ieuenctid Symudol' Cefnogi ac Atal a'r ymgyrch 'Cysylltu â Charedigrwydd'.

Blaenoriaeth 4: Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (UKYP)

Wedi ei hethol fel ein Haelod newydd ar gyfer Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, roedd Poppy Evans o Ysgol Uwchradd Aberaeron wedi chwarae rôl amlwg wrth eirioli ar ran pobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion. Ar ddechrau ei thymor blynyddol, roedd ein Haelod o'r Senedd Ieuenctid wedi chwarae rôl allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o hawliau LHDTC+, cefnogi cais partneriaeth 'Mind Our Futures' (llwyddiannus) i'r Gronfa Loteri Fawr, cwrdd â phobl allweddol o fewn Gwasanaethau Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion, cynnal grwpiau ffocws ar yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, hyrwyddo'r ymgyrch 'Gwneud eich Marc' yn lleol, a mynychu cyfarfodydd cenedlaethol Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru.

Blaenoriaeth 4: Aelod Etholedig Senedd Ieuenctid Cymru Ceredigion

Cafodd Lloyd Warburton, disgybl yn Ysgol Penglais, ei ethol fel Aelod newydd o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion, a bu'n aelod gweithgar hefyd o Gyngor Ieuenctid Ceredigion.

Blaenoriaeth 2: Ymgyrch 'Gwneud eich Marc' Ceredigion 2022

Unwaith eto, rhoddodd yr Ymgyrch 'Gwneud eich Marc' gyfle i bobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion bleidleisio dros y pwnc y teimlant sy'n bwysicaf iddyn nhw yn eu bywydau bob dydd. Ar ôl derbyn 2152 o bleidleisiau a'r nifer uchaf erioed yn pleidleisio yn yr ymgyrch ym mis Chwefror 2022, tynnodd pobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion sylw at Iechyd a Llesiant (479 o bleidleisiau), Swyddi, Arian, Cartrefi a Chyfleoedd (450 o bleidleisiau) a'r Amgylchedd (405 o bleidleisiau) fel y prif bynciau oedd yn effeithio ar bobl ifanc yng Ngheredigion ar adeg yr ymgyrch.

Blaenoriaeth 2 a 4: Llais y Disgybl a Chynghorau Ysgol

Rhannwyd ymgynghoriad Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion â holl Ysgolion Uwchradd Ceredigion yn ystod 2021/2022. Wrth asesu iechyd a llesiant disgyblion ysgol, mae holiadur chwe-misol Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn rhoi cyfle i ddisgyblion rannu eu hadborth ar faterion pwysig fel byw'n iach, llesiant emosiynol a meddyliol, camddefnyddio a defnyddio sylweddau ac yn olaf, perthnasoedd a rhywioldeb. Cynhyrchwyd

adroddiad cryno rhanbarthol Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad, yn ogystal ag adroddiad ysgolion unigol ar gyfer holl ysgolion uwchradd Ceredigion. Bydd ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn defnyddio'r canlyniadau hyn i nodi blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023.

Rhoddwyd cyfle i staff Ysgol Ceredigion fynychu gweithdy hyfforddi llais y disgybl. Wedi ei ddatblygu a'i ddarparu gan wasanaeth ysgolion Ceredigion, rhoddodd yr hyfforddiant fewnwelediad manwl i ddeddfwriaeth, theori a dulliau cyfranogiad. Rhannwyd canllawiau ar gyfer cynghorau ysgol ac enghreifftiau o arfer da o fewn ysgolion Ceredigion hefyd yn ystod yr hyfforddiant. Roedd Llais y Disgybl hefyd yn flaenoriaeth yn ystod ail rownd ymweliadau Ymgynghorwyr Cymorth, lle cafodd cynghorau a phwyllgorau ysgol gyfle i ddathlu eu gwaith yn yr ysgolion yn ogystal â lleisio eu barn ar nifer o bynciau yn seiliedig ar lesiant. Yn ystod tymor yr haf trefnwyd cyfarfod pontio lle cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i ofyn cwestiynau i ddisgyblion Blwyddyn 7 yn eu hysgol uwchradd fwydo. Derbyniodd Ysgol Gynradd Aberteifi y Wobr Aur ar gyfer Ysgolion sy'n Parchu Hawliau 2021-2022, a derbyniodd Ysgol Gynradd T Llew Jones y Wobr Efydd.

Blaenoriaeth 4: Bwrsariaeth Pobl Ifanc Ceredigion

Wedi ei gefnogi gan rodd oddi wrth fusnesau lleol, roedd Bwrsariaeth Pobl Ifanc Ceredigion 2021 ar gael unwaith eto i bobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion. Mae'r fwrsariaeth yn cynnig modd i bobl ifanc wneud cais am gymorth ariannol i gyflawni nod personol. Yn dilyn cyfarfod o'r 'Panel Ieuenctid Dewis', rhoddwyd cyfran o'r fwrsariaeth £1,000 i 3 pherson ifanc lleol i'w helpu i gwblhau lleoliad gwaith yn Ysbyty Glangwili, prynu adnoddau Celf i gwblhau cwrs coleg, a chymorth ar gyfer syniad am fusnes celf newydd.

Blaenoriaeth 4: Panel Ieuenctid 'Dewis'

Gan gwrdd yn rhithiol ar HWB Teams, mae'r Panel Ieuenctid 'Dewis' wedi parhau â'i rôl fel panel ieuenctid sy'n dyrannu'r Grant a Arweinir gan Ieuenctid (mewn partneriaeth â CAVO) a Bwrsariaeth Pobl Ifanc Ceredigion 2021. Cyfarfu'r panel 4 gwaith yn 2021/ 22, gan sicrhau bod pobl ifanc a phrosiectau ieuenctid lleol yn cael cymorth ariannol i ddatblygu a chyrraedd eu nodau.

Blaenoriaeth 4: Fforymau Ieuenctid Allanol

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi sicrhau cyfle i ddau berson ifanc gynrychioli'r gwasanaeth ar ddau fforwm allanol. Mynychwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol a gynhaliwyd gan Blant yng Nghymru a Fforwm Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ar lwyfannau rhithiol gan roi cyfle i'r ddau berson ifanc gymryd rhan ar faterion rhanbarthol a chenedlaethol yn ymwneud â phlismona a throseddu a gwasanaethau iechyd meddwl pobl ifanc.

Wedi'i hwyluso gan RAY Ceredigion, cyfarfu'r fforwm Cefnogwch Ni 11 gwaith (misol) yn ystod y cyfnod cyfrifyddu hwn gydag 19 o aelodau ifanc. Roedd y grŵp yn gallu rhannu ei farn a rhoi adborth ar 7 ymgynghoriad lleol a chenedlaethol.

Blaenoriaeth 1: Ymgyrch Diwrnod Byd-eang y Plant

Lansiwyd ymgyrch ddigidol wythnos o hyd i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo Diwrnod Byd-eang y Plant a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2021. Gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol roedd yr ymgyrch wedi tynnu sylw at waith cadarnhaol gwasanaethau ieuenctid lleol gan gynnwys DASH Ceredigion, Ceredigion Actif a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion. Diwrnod Byd-eang y Plant yw pen-blwydd y dyddiad ym 1989 pan oedd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi mabwysiadu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

Blaenoriaeth 1: Hyfforddiant Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig

Mae Modiwl Ymwybyddiaeth E-ddysgu Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig ar gael i holl staff Cyngor Sir Ceredigion ar borth Ceri.

Trwy drafodaethau yn Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru rhagwelir y bydd dull cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ar gyfer hyfforddiant hawliau plant. Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerdydd i fapio'r cynnig hyfforddiant hawliau plant presennol yng Nghymru. Bydd datblygu a gweithredu'r cynnig hyfforddiant hawliau plant Cymru yn y dyfodol yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

Gweithdai ac Ymgynghoriadau

- Fel rhan o brosiect peilot ar gyfer asesu'r dull ysgol-gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, cynhaliwyd gweithdy rhanbarthol gyda chydweithwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro ar gyfer ysgolion yn y tair sir. Roedd y gweithdy wedi tynnu sylw at bersbectif deddfwriaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc a chodi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (Blaenoriaeth 6).

- Cyflwynwyd ymateb ar y cyd i ymgynghoriad y Senedd: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Chweched Senedd gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion a Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr Ifanc Ceredigion (Blaenoriaeth 6).
- Fel rhan o Brosiect Peilot Iaith Gymraeg Partneriaeth Gwasanaethau Ieuenctid Ceredigion, datblygwyd holiadur i ymgynghori â phobl ifanc ynghylch eu dewisiadau iaith a'u cyfranogiad allgyrsiol mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, byw'n iach a dinasyddiaeth (yn ystod

eu hamser hamdden a thu allan i oriau'r cwricwlwm ysgol). Nod y prosiect oedd treialu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a oedd yn cael eu harwain drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ymateb i'r anghenion unigol a nodwyd (Blaenoriaeth 2).

- Roedd ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth i'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru wedi rhoi cyfle i unigolion a grwpiau o bobl ifanc yn ysgolion uwchradd Ceredigion ac i banel o bobl ifanc fynegi eu barn ar eu profiadau o fyw yn ardaloedd gwledig Ceredigion. Yn dilyn nifer o weithdai, rhannwyd yr adborth a gafwyd gyda Phrifysgol Aberystwyth a aeth ymlaen i gynhyrchu 'Adroddiad Arolwg Pobl Ifanc yng Nghefn Gwlad Cymru' (Blaenoriaeth 2).

<u>Cynrychiolaeth Broffesiynol Allanol</u>

- Parhaodd cynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Hawliau Plant Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac ar Rwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru. Cynhaliwyd pob cyfarfod rhithiol yn ystod y cyfnod cyfrifyddu hwn (Blaenoriaeth 6).

Cam Gweithredu 3.4	Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol, yn arbennig i fenywod, pobl anabl neu bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.	**Swyddog Arweiniol: Glynis Davies, Gwasanaethau Etholiadol**	**Oren**
Canlyniad: Mwy o fenywod, pobl anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli.			
Cynnydd 2021-22: Rydym yn parhau i gefnogi rhaglenni a chynlluniau cenedlaethol i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau yn lleol. Cysylltir yn rheolaidd â'r tîm yn y Cyngor sy'n cefnogi adsefydlu ffoaduriaid i sicrhau bod y grŵp hyglwyf hwn yn cael ei gynrychioli ar y gofrestr etholiadol.			
Cam Gweithredu 3.5	Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed pan gaiff yr oedran pleidleisio ei ostwng yng Nghymru.	**Swyddogion Arweiniol: Glynis Davies, Gwasanaethau Etholiadol / Gwion Bowen, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**

Canlyniad: Dull wedi ei dargedu at hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, Chweched Dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fforymau Plant a Phobl Ifanc a Chyfryngau Cymdeithasol Gwasanaethau Ieuenctid.			
Cynnydd 2021-22: • Rhoddodd y Gwasanaethau Democrataidd gyflwyniad i Gyngor Ieuenctid Sir Ceredigion ynghylch 'Pleidleisio yn 16' a sut i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf yn 2022. Cafodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid y dasg o rannu'r wybodaeth â'u cyfoedion (rhannwyd y cyflwyniad). • Rhannodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wybodaeth ar ei gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch 'Pleidleisio16' Senedd Cymru gan godi ymwybyddiaeth o 'bleidleisio yn 16' a sut i gofrestru i bleidleisio. • Rhannwyd deunyddiau hyrwyddo pleidleisio yn 16 gyda darparwyr gwasanaethau ieuenctid lleol a oedd yn cynnwys darpariaeth ieuenctid y trydydd sector, Coleg Ceredigion a Hyfforddiant Ceredigion Training.			
Cam Gweithredu 3.6	Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion.	**Swyddog Arweiniol: Cathryn Morgan, Partneriaethau a Pherfformiad**	**Oren**
Canlyniad: 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod gyda CSC. Mae llais pobl anabl yn cael ei glywed ac yn ddylanwadol.			
Cynnydd 2021-22: Parhaodd cyfarfodydd gyda'r Fforwm Anabledd ar-lein ond mae aelodaeth o'r grŵp yn llawer llai. Bydd trefniadau Fforwm Anabledd yn cael eu hadolygu yn 2022-23 i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni canlyniadau'r Cynllun hwn. Yn 2021-22 cyfarfu'r Fforwm â'r Cyngor ddwywaith, i drafod yr Asesiad o Lesiant Lleol, Dyfodol Canol Trefi a Pharcio ar y Palmant. Cyfarfu'r fforwm ar ddau achlysur arall, heb gynrychiolwyr o'r Cyngor i drafod yr argyfwng costau byw, yr Asesiad o Lesiant Lleol a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol.			
Cam Gweithredu 3.7	Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y Cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau.	**Swyddog Arweiniol: Cathryn Morgan, Partneriaeth a Pherfformiad**	**Oren**

Canlyniad: Tudalen Cydraddoldeb wedi ei diweddaru ar wefan CSC.			
Cynnydd 2021-22: Cafodd y dudalen Cydraddoldeb ei diweddaru gan gynnwys cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20.			
Cam Gweithredu 3.8	Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol.	**Swyddogion Arweiniol: Cathryn Morgan, Partneriaethau a Pherfformiad (a hefyd pob maes gwasanaeth i'w weithredu)**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Nifer o gamau gweithredu Glas (wedi ei gwblhau) a Gwyrdd (dangos cynnydd da) yn erbyn cyfanswm y camau gweithredu.			
Cynnydd 2021-22: Mae 54 o gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol. Mae 37 (69%) yn Las (wedi ei gwblhau) a Gwyrdd (yn dangos cynnydd da).			
Cam Gweithredu 3.9	Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig.	**Swyddog Arweiniol: Cathryn Morgan, Partneriaeth a Pherfformiad**	**Oren**
Canlyniad: Proses Asesiad Effaith Integredig ddiwygiedig wedi ei gweithredu.			
Cynnydd 2020-21 (rhoi Cynnydd 2021-22 yn ei le): Cafodd diwygiad dros dro ei wneud i'r Asesiadau Effaith Integredig er mwyn darparu ar gyfer dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Disgwylir gwneud diwygiad cyffredinol yn 2022-23.			

Cam Gweithredu 3.10	Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig.	**Swyddog Arweiniol** **Cathryn Morgan Polisi a Pherfformiad**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Nifer yr Asesiadau Effaith Integredig sy'n cyrraedd y safon ofynnol a gyflwynir gyda Phapurau Cabinet / cyfanswm yr Asesiadau Effaith Integredig sy'n ofynnol.			
Cynnydd 2021-22: Roedd dau yn llai o Asesiadau Effaith Integredig eleni o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Cafodd 27 o Asesiadau Effaith Integredig eu cyflwyno, ac o'r rhain roedd 48% wedi cyrraedd y safon ofynnol. Rydym wedi gweld cynnydd yng nghyfran yr Asesiadau Effaith Integredig a gwblhawyd i safon dderbyniol. Rhoddwyd adborth ar 59% o'r Asesiadau Effaith Integredig yr oedd angen rhoi sylw iddynt er mwyn i ddiwygiadau gael eu gwneud. Canlyniadau 2021-22: 48% wedi cyrraedd y safon ofynnol Canlyniadau 2020-21: 41% wedi cyrraedd y safon ofynnol			
Cam Gweithredu 3.11	Darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, a chynyddu argaeledd a safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.	**Swyddog Arweiniol: Carys Morgan, Gwasanaethau Democrataidd**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg.			
Cynnydd 2021-22: Caiff Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22 ei gyflwyno i'r Cabinet yng Ngorffennaf 2022. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y safonau o ran darparu ei wasanaethau, llunio polisïau, darparu gwasanaethau yn fewnol i'w staff yn ogystal â rhoi sylw i'r defnydd o'r Gymraeg, ei hyrwyddo a'i hwyluso yn fwy eang trwy'r sir. Casglwyd yr wybodaeth ar sail gwaith monitro parhaus y Cyngor o'i wasanaethau. Mae fframwaith hunan-fonitro wedi cael ei ddatblygu yn erbyn gofynion Safonau'r Gymraeg, ac mae pob Swyddog Corfforaethol Arweiniol wedi sgorio perfformiad ei wasanaeth yn eu herbyn.			

Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg y Cyngor wedi cydweithio'n agos â rheolwyr gwasanaeth er mwyn eu helpu i baratoi cynlluniau i wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg. Rydym wedi cyhoeddi e-lyfr sy'n gosod canllawiau ar weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg "Beth sydd angen i mi ei wneud". Mae hyfforddiant wedi ei roi i holl Gynghorwyr y Cyngor ar ofynion Safonau'r Gymraeg, a rhannwyd arweiniad ar ystyried y defnydd o'r Gymraeg wrth gynnal cyfarfodydd cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth trwy Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion ac yn cydweithio i gyflawni gofynion Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23 i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ehangach o'r Gymraeg ar draws y Sir.

Cam Gweithredu 3.12	Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu Dream Team.	**Swyddogion Arweiniol** **Pawb**	**Oren**
Canlyniad: Canlyniadau gwell i bobl ag anableddau dysgu.			
Cynnydd 2021-22: Mabwysiadu'r Siarter yn parhau.			

Amcan 4: Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau.

Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Gwnawn hyn trwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd trwy ateb eu hanghenion os ydynt yn wahanol i anghenion pobl eraill.

Cam Gweithredu 4.1	Byddwn yn hwyluso mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth trwy'r Porth Cymorth Cynnar, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn darparu sesiynau technoleg hygyrch a chymunedau sy'n deall dementia.	**Swyddog Arweiniol: Sam Humphreys, Porth Cymorth Cynnar**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo. Mwy o sesiynau deall dementia yn cael eu darparu.			
Cynnydd 2021-22: Ni chyflwynwyd unrhyw sesiynau deall dementia oherwydd y cyfnodau clo a Covid.			

Mae gennym 494 o ddefnyddwyr cofrestredig ar Dewis. Edrychwyd ar 9,662 o fanylion adnoddau yn ystod y flwyddyn. Roedd 281 o adnoddau yng Ngheredigion ar Dewis ar ddiwedd Medi 2022. Ni chyflwynwyd unrhyw sesiynau deall dementia oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cwrs gloywi ar gyfer staff yn y tîm er mwyn gallu cyflwyno mwy o sesiynau yn y dyfodol. Rydym wedi sefydlu rhai digwyddiadau ymgysylltu gyda gofalwyr a digwyddiadau galw heibio ar draws Ceredigion gyda chysylltwyr i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i aelodau'r cymunedau.			
Cam Gweithredu 4.2	Byddwn yn darparu cymorth wedi ei dargedu megis y prosiectau "Cynllun Cyfeirio" ac "Ymuno" er mwyn i blant ag anghenion ychwanegol allu mynychu gweithgareddau prif ffrwd.	**Swyddogion Arweiniol: Emma Clarke, Porth Cynnal / Ruth Lewis, Ysgolion a Diwylliant**	**Oren**
Canlyniad: Cynnal y gyfradd dychwelyd holiaduron ar 50% a chynnal graddfa gwasanaeth da neu uwch ar 84%.			
Cynnydd 2021-22: Rydym yn talu am hyfforddiant, cymorth a staff ychwanegol er mwyn i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol allu mynychu lleoliadau plant prif ffrwd. Mae'r 'Cynllun Cyfeirio' yn cefnogi plant cyn-ysgol ac mae 'Ymuno' ar gyfer plant oedran ysgol. Mae Covid yn parhau i gael effaith sylweddol ar y nifer sy'n manteisio ar y cynllun Ymuno. Cyn Covid roedd 18 o blant wedi eu cofrestru ond dim ond un plentyn gafodd ei gefnogi gan Ymuno yn 2020/21. Byddwn yn cysylltu â'r lleoliadau yn 2021-22 i weld a oes plant eraill a allai elwa o'r cymorth. Cefnogwyd 150 o blant gan gymorth 'Cynllun Cyfeirio' ar gyfer plant cyn oed ysgol, ac mae hyn yn cynnwys 55 o blant o ardal Dechrau'n Deg. Roedd y plant wedi elwa ar oriau staff ychwanegol i gefnogi plant gyda chymorth 1:1, cymorth mewn grŵp a throsglwyddo esmwyth o leoliad cyn-ysgol i'r ysgol. Cefnogwyd 131 o blant yn 2020-21.			
Cam Gweithredu 4.3	Byddwn yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd sy'n ateb eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol, Canolfan Cymorth Cymunedol).	**Swyddogion Arweiniol: Nerys Lewis, Porth Gofal a Gillian Evans, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**

Canlyniad: Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth.			
Cynnydd 2021-22: Mae carfan gyntaf Camu' Mlaen (myfyrwyr ôl-16 ag anghenion dysgu ychwanegol) wedi cwblhau eu hail flwyddyn, a bydd cyflwyniad i ddathlu eu llwyddiant yn cael ei gynnal gan Gyngor Ceredigion yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Ceir cydweithio effeithiol i sicrhau darpariaeth ôl-16 ddi-dor tan eu bod yn oedolion. Bydd adolygiad partneriaeth o'r flwyddyn yn cael ei gwblhau a bydd hyn yn cynnwys parhau i archwilio ymhellach mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth er mwyn gwella eiriolaeth ble a phan fydd ei angen.			
Cam Gweithredu 4.4	Byddwn yn datblygu manyleb a dogfennau tendro ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth newydd ar gyfer anableddau dysgu, iechyd meddwl a phobl hŷn.	**Swyddog Arweiniol: George Ryley, Cyllid a Chaffael**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mwy o bobl wedi cael mynediad i'r gwasanaethau eiriolaeth.			
Cynnydd 2021-22: Aeth y contract rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn fyw ar 1 Ebrill 2022. Fe'i gelwir yn gontract Eiriolaeth Annibynnol y 3 Sir (3CIPA). Dewiswyd dull darparwr unigol y contract yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae adborth ar y contract newydd gan gydweithwyr yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r dull yn gweithio'n dda iddyn nhw a'u defnyddwyr gwasanaeth. Bydd nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael ei fonitro yn y dyfodol.			
Gweithred 4.5	Byddwn yn darparu ystod ddwyieithog o ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd ar draws holl ardaloedd y sir i wella lefelau gweithgarwch corfforol ymysg oedolion hŷn. Mae'r rhain yn cynnwys: • Datblygu gweithgareddau llesiant ar gyfer unigolion â chyflyrau cronig • Cyflwyno ymyriad â ffocws i wella llesiant corfforol ac emosiynol unigolion mewn lleoliadau cofrestredig er mwyn iddynt ailafael yn eu hannibyniaeth.	**Swyddog Arweiniol: Alwyn Davies, Porth Cymorth Cynnar**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Cynorthwyo ein poblogaeth sy'n heneiddio i fod yn gorfforol ac yn gymdeithasol weithgar, gan gefnogi eu hannibyniaeth. Gwella'r cyfle a'r gallu i bawb fod yn actif yn gorfforol bob dydd.			

Cynnydd 2021-22: Mae dosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnal yn Aberystwyth, Aberaeron, Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'r dosbarthiadau'n cynnwys cylchedau, Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, a sesiynau campfa a dosbarthiadau Fit4Life (60+). Yn ogystal, trefnir Teithiau Cerdded Llesiant wythnosol o'r Borth, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Aberporth ac Aberteifi. Mae cynllun peilot ymyrraeth â ffocws wedi bod yn rhedeg yn Llanbedr Pont Steffan ar gyfer unigolion â chyflyrau cronig ar sail un i un. Mae'r cynllun peilot yn canolbwyntio ar unigolion nad ydynt yn barod neu sy'n methu â mynychu dosbarthiadau grŵp yn ddiogel.			
Cam Gweithredu 4.6	Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned er mwyn ateb anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben.	**Swyddog Arweiniol: Nerys Lewis, Porth Gofal**	**Oren**
Canlyniad: Nodi nifer y gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron.			
Cynnydd 2021-22: Ar hyn o bryd mae prosiect Cylch Caron yn paratoi dogfennaeth i gaffael partner datblygu. Ochr yn ochr â hyn mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a chwblhau'r Achos Busnes Llawn.			
Cam Gweithredu 4.7	Byddwn yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio i sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch.	**Swyddog Arweiniol: Llyr Hughes, Porth Gofal**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Lefelau boddhad gwell ymysg pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch.			
Cynnydd 2021/22: Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch a'r Polisi Tai Hygyrch wedi bod yn eu lle ers Mehefin 2016. O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gofrestr Tai Hygyrch ac yn derbyn cynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu. Yn ystod 2021/2022, gwnaed nifer o ddyraniadau i unigolion a theuluoedd sydd angen tai hygyrch, gan gynnwys 56 o fflatiau yng Nghynllun Gofal Ychwanegol Maes y Môr. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn nodi bod 15% o geisiadau i'r Gofrestr Tai yn gofyn am ryw fath o eiddo hygyrch. Y categorïau a gafodd eu cynnwys yw cadair olwyn lawn/cadair olwyn rannol/angen llawr gwaelod/cartrefi am oes/uchafswm 3 gris/dim grisiau. Mae mynediad i'r Gwasanaeth Opsiynau Tai ar gael yn ddwyieithog ac er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i gwblhau ffurflenni cais ar-lein, mae cyfleusterau ar gael i dderbyn ceisiadau dros y ffôn. Mae gwefan Opsiynau Tai hefyd yn cynnig ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd ag opsiynau hygyrchedd ychwanegol megis testun yn unig/ffurf graffigol/darllen yn uchel a'r dewis i gynyddu maint y testun.			

Cam Gweithredu 4.8	Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd sydd â phlant ifanc fel ran o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir.	**Swyddog Arweiniol: Gerwyn Jones, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**	**Gwyrdd**

Canlyniadau:

Gwaith i wella cysgodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd y llwybr T2/T5.
Parhau i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithio am ddim i bawb ar y penwythnos ar rwydwaith TrawsCymru.
Mae'r ddwy fenter yn gwella hygyrchedd trwy gyfrwng gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaeth.

Cynnydd 2021-22:

Mae'r pandemig byd-eang Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn achos y gofynion a'r galw am deithio sy'n cynnwys yr effeithiau sy'n codi o gyfyngiadau teithio a ffyrdd newydd neu wahanol o weithio a byw yn gyffredinol. Mae'r effeithiau hyn yn dilyn ac yn ymestyn o deithio rhyngwladol i deithio ar lefel leol.

Mae'r Cyngor Sir wedi cydweithio'n agos â gweithredwyr bysiau lleol trwy gydol pandemig Covid-19 i gefnogi'r diwydiant a chynnal lefel graidd o wasanaethau gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yr un pryd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu asesiadau risg Covid-19 a gweithredu mesurau lleddfu rheolaeth gysylltiedig. Mae natur integredig rhwydweithiau bysiau yng Ngheredigion yn golygu bod y dull gweithredu hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant dysgwyr yn ogystal â'r gwasanaethau a'r cyfleoedd teithio sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bu angen bod yn ddeinamig ac yn hyblyg yn ein hymateb i sefyllfa sy'n newid yn gyflym oherwydd Covid-19. Mewn hinsawdd gweithredu heriol o'r fath mae manteision mabwysiadu dull gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu wedi dod i'r amlwg ac yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n gyffredinol.

Mae gwaith wedi parhau ar welliannau i gysodfannau ac arosfannau bysiau ar hyd llwybr T2/T5, gan gynnwys yr wybodaeth a ddarperir mewn cyfnewidfeydd allweddol gan gynnwys Porth Aberystwyth, Sgwâr Alban Aberaeron a Sgwâr Finch Aberteifi.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r gweithredwyr bysiau i weinyddu a rheoli cyllid newydd Cynllun Brys ar gyfer Bysiau. Cafodd hyn ei roi ar waith i gefnogi gweithredwyr a gwasanaethau yn ystod y pandemig ond hefyd wrth i ni symud tuag at fodel newydd ar gyfer y modd y darperir ac y rheolir gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi dechrau adolygu ac ailwampio rhwydweithiau bysiau Cymru.

Cam Gweithredu 4.9	Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella troetffyrdd a cherbytffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is).	**Swyddog Arweiniol: Phil Jones, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**	**Oren**
Canlyniad: Mwy o welliannau i droetffyrdd sy'n rhoi sylw i faterion hygyrchedd.			
Cynnydd 2021/22: Mae hwn yn weithgarwch blynyddol parhaus. Mae mynediad i'r anabl (neu ddiffyg mynediad i'r anabl) yn faen prawf ar gyfer sgorio/asesu gwaith wrth lunio'r rhestr wedi ei blaenoriaethu o gynlluniau cynnal a chadw a/neu wella. Wrth i gyllidebau leihau bydd rhaid lleihau nifer y cynlluniau adnewyddu troetffyrdd, cynlluniau gwella a chynnal a chadw priffyrdd ac o ganlyniad bydd llai o gyfle i wella hygyrchedd hefyd.			
Cam Gweithredu 4.10	Byddwn yn parhau i weithredu ymgyrch Cymhennu Ceredigion er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar droetffyrdd yn ein trefi, megis byrddau hysbysebu ffrâm A biniau ar olwynion.	**Swyddog Arweiniol: Gerwyn Jones, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mae Cyhoeddiadau Cymhennu Ceredigion yn cael eu rhannu/cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd gan godi ymwybyddiaeth barhaus.			
Cynnydd 2021-22: Byddai annibendod 'preifat' anghyfreithlon (nid dodrefn stryd) yn cael ei ystyried yn drosedd rhwystro oni bai ei fod wedi ei drwyddedu/gymeradwyo.			
Cam Gweithredu 4.11	Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrchedd i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor	**Swyddog Arweiniol: Lyndon Griffiths, Economi ac Adfywio**	**Gwyrdd**

Canlyniad: Mwy o adolygiadau hygyrchedd wedi eu cwblhau a gwelliannau a argymhellir wedi cael sylw.			
Cynnydd 2021-22: Rydym yn parhau i gynnal archwiliadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau'r Cyngor a datblygiadau mawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Toiledau mewn perthynas â hygyrchedd a gwaith parhaus i gynyddu nifer y toiledau gyda lleoedd newid yn y sir.			
Cam Gweithredu 4.12	Rydym wedi ennill safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwyedd.	**Swyddog Arweiniol: Arwyn Morris, Cyswllt Cwsmeriaid**	**Glas**
Canlyniad: Cynyddu lefelau boddhad cwsmeriaid.			
Cynnydd 2021-22: Bydd y cam gweithredu hwn yn un parhaus er mwyn bodloni unrhyw safonau newydd – rydym wedi bodloni'r holl safonau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer hygyrchedd. Mae'r cam gweithredu hwn yn las – wedi ei gyflawni ond bydd yn parhau i esblygu wrth i dechnoleg newid. Mae dros 90% o'r wefan wedi cyrraedd safon AAA.			
Cam Gweithredu 4.13	Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion *'Mynediad Lleiaf Rhwystrol'* lle y bo'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth gynnal a chadw neu wella hawliau tramwy cyhoeddus.	**Swyddog Arweiniol: Eifion Jones, Economi ac Adfywio**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.			
Cynnydd 2021-22: Cafwyd cyllid cyfalaf gan y Cyngor i newid pontydd troed gan helpu i gydymffurfio â lled 1.2m sydd wedi eu cynnwys o fewn y canllawiau "trwy bob dull rhesymol" ar gyfer mynediad lleiaf rhwystrol. Mae nodi'r rhwystrau i fynediad wedi ei gynnwys bellach ym mhob taflen llwybrau a hyrwyddir, h.y. camfeydd, gatiau, gosod wyneb a graddiant llwybrau ac ati.			
Cam Gweithredu 4.14	Cynyddu cyfraniad chwarae at iechyd a llesiant cadarnhaol	**Swyddog Arweiniol: Alwyn**	**Gwyrdd**

		Davies, Porth Cymorth Cynnar	
Canlyniad: Cynyddu nifer y cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.			
Cynnydd 2021-22: Mae'r rhaglen Haf o Hwyl wedi dod i ben gyda 45 o brosiectau yn rhedeg ar draws trefi a chymunedau gwledig Ceredigion. Rhoddodd y cyllid gyfle i blant a phobl ifanc 0-25 oed gael mynediad i weithgareddau am ddim, gyda'r nod o gefnogi eu datblygiad a'u llesiant. Yng Ngheredigion cynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys dewis o weithgareddau chwarae, chwaraeon, diwylliannol ac eraill i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gwahanol. Cynigiwyd gweithgareddau yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog. Cynigiwyd cyfleoedd gan wasanaethau mewnol CSC ac yn allanol trwy'r trydydd sector.			
Cam Gweithredu 4.15	Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a manyleb contract yn cynnwys Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol.	**Swyddogion Arweiniol: George Ryley, Cyllid a Chaffael / Carys Morgan, Gwasanaethau Democrataidd**	**Glas**
Canlyniad: Canran y manylebau contract a gyhoeddir gyda gofynion ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg.			
Cynnydd 2021-22: Mae'r holl gontractau mawr yn cael eu tendro trwy ddefnyddio system e-dendro-Cymru, ac mae gan 100% o'r rhain gwestiynau ynghylch gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi eu cynnwys ynddynt fel rhan o broses safonedig. Ni chaiff y rhai sy'n cyflwyno tendr ac sy'n methu ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion symud ymlaen i'r cam nesaf. Roedd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi eu cynnwys yn y tendrau hynny fel gwybodaeth safonol. Mae templed manyleb contract safonedig wedi ei ddatblygu sy'n gosod gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Cyngor.			
Cam Gweithredu 4.16	Byddwn yn parhau i helpu clybiau chwaraeon cymunedol i ennill Gwobr Anabledd Insport.	**Swyddog Arweiniol: Steve Jones, Porth Cymorth Cynnar**	**Gwyrdd**

Canlyniad: Mwy o wirfoddolwyr/prosiectau cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau.			
Cynnydd 2021-22: Roedd 5 prosiect anabledd penodol wedi eu cynnwys yn yr Haf o Hwyl. Roedd llawer mwy ohonynt yn gynhwysol. Mae 5 Cerdyn Aur wedi eu cyflwyno i bobl ifanc ag anableddau sy'n cael cyfleusterau hyfforddi am ddim yn y Canolfannau Llesiant. Rhoddir Cardiau Aur i drigolion Ceredigion sydd wedi derbyn anrhydeddau rhyngwladol neu uwch mewn camp benodol.			
Cam Gweithredu 4.17	Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon Aur Insport.	**Swyddogion Arweiniol: Alwyn Davies, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**
Canlyniadau: Parhau â'r daith a'r broses ddysgu i staff, partneriaid a gwasanaethau o statws Rhuban i Aur. Bod yn wasanaeth cynhwysol sydd â gweledigaeth ar gyfer pob safon.			
Cynnydd 2021-22: Mae trafodaethau ar y gweill gyda Chwaraeon Anabledd Cymru i symud y broses achredu ymlaen i'r Wobr Aur.			

Amcan 5: Addysg Deg a Chynhwysol. **Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd heb unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu gydol oes.**			
Cam Gweithredu 5.1	Byddwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.	**Swyddog Arweiniol: Nia James, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Pob ysgol yn adrodd ac yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau cynlluniau cydraddoldeb strategol unigol yn ystod tymor yr haf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.			

Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le ym mhob ysgol.			
Cynnydd 2021/22: Pob ysgol wedi cwblhau ei Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ystod tymor yr haf.			
Cam Gweithredu 5.2	Byddwn yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio'n seiliedig ar hunaniaeth a gweithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru pan gânt eu lansio yng ngwanwyn 2020.	**Swyddogion Arweiniol: Laurie Hughes / Kizzie Garner-Hughes, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Pob ysgol wedi adolygu ei pholisi gwrth-fwlio. Polisi drafft wedi ei greu ar gyfer ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd. Copi drafft wedi ei anfon i'w ymgynghori arno a cheisio cymeradwyaeth uwch staff addysg cyn cael ei gylchredeg i'r ysgolion.			
Cynnydd 2021/22: Mae'r polisi gwrth-fwlio wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet ers i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf gael ei rannu, ac felly nid yw ar ffurf drafft bellach. Mae gan bob ysgol gopi o'r polisi sy'n cael ei adolygu'n flynyddol yn ystod tymor yr hydref Rydym wedi bod yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau perthnasol ar Teams e.e. seiberfwlio, adnoddau gwrth-fwlio generig a hyrwyddo'r wythnos gwrth-fwlio, adnoddau gwrth-hiliaeth yn ogystal ag ysgolion yn gweithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, gwasanaethau ysgolion yn talu aelodaeth Stonewall ac felly gall ysgolion gael mynediad i hyfforddiant a chymorth ar gyfer LHDTC+, defnyddio grant y Fframwaith Ysgol Gyfan i drefnu hyfforddiant gwrth-fwlio KIVA i ysgolion, polisi 'drafft' newydd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lle mae pwyslais mawr ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Targedau ar gyfer 2022-23: • Polisi Addysg Cydberthynas a Rhyw i'w fabwysiadu trwy'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2022. • Rhannu gwybodaeth ag ysgolion a'u helpu i bennu blaenoriaethau/strategaethau pan fydd LIC yn rhyddhau'r canllawiau Traws yn ddiweddarach y flwyddyn academaidd hon. • Cwblhau taflen gofnodi ganolog ar gyfer bwlio y gall ysgolion ei defnyddio ar gyfer Llywodraethwyr a staff cymorth sirol penodol er mwyn i ni allu adnabod tueddiadau neu ysgolion sydd angen cymorth a sicrhau bod ysgolion yn cofnodi bwlio.			

Cam Gweithredu 5.3	Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd ag ADY	**Swyddog Arweiniol: Gillian Evans, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**

Canlyniadau:

Pob disgybl ag ADY wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion.
Wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant ag ADY ym mhob cyfnod allweddol.

Cynnydd 2021-22:

- Mae perfformiad disgyblion AAA/ADY Ceredigion yn dda. Ceir cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar a disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae cydnabyddiaeth gynnar yn sicrhau bod disgyblion yn cael ymyrraeth gynnar a chymorth i fodloni eu hanghenion dysgu ychwanegol. Ers mis Medi 2021 rydym wedi bod yn gweithredu'r Cod ADY Newydd gyda'r cyfnod pontio dros gyfnod o 3 blynedd.
- Mae Ceredigion wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i gynyddu gallu'r gweithlu i ateb anghenion disgyblion prif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn adlewyrchu anghenion y Cod ADY newydd ac hyfforddiant awtistiaeth.
- Mae'r ddarpariaeth Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) yn parhau i ddatblygu yn ein hysgolion. Mae cynnydd mewn hyfforddiant bellach yn golygu bod gennym o leiaf un Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol mewn 36 o'n 39 lleoliad (cynnydd o 70% i 92.3% o ysgolion). Mae gan rai ysgolion nifer o Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol erbyn hyn. Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth glinigol i'r 73 o Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (cynnydd o'r 49 a adroddwyd yn flaenorol) sydd wedi eu hyfforddi yn y sir. Er gwaethaf y niferoedd mawr, mae ysgolion yn dal i ofyn am hyfforddiant pellach er mwyn iddynt allu parhau i gefnogi plant agored i niwed a hyfforddi eraill rhag ofn y bydd Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn gadael yr ysgol. Felly mae hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer gaeaf 2022. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion agored i niwed yng Ngheredigion yn parhau i gael ei monitro.

Oherwydd Covid 19, ni fydd data diwedd cyfnod allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3 yn cael eu casglu yn ystod tymor yr haf. Bydd data ysgol mewnol yn cael ei fonitro i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd adeg mynediad. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion ar y gofrestr AAA/ADY ac yn adlewyrchu effaith trawsnewid system ADY, cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymyrraeth o fewn ysgolion. Dros y 3 blynedd nesaf bydd disgyblion sydd ag ADY yn trosglwyddo o Weithredu gan yr Ysgol (SA), Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAP), Cytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAPRA) a Datganiad i Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a fydd naill ai'n CDU a gynhelir gan yr ysgol neu'n Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

	Gweithredu gan yr Ysgol		Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / Cytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy		Datganiad		CDU – Ysgol		CDU – ALl	
Blynyddoedd	0-6	7-11	0-6	7-11	0-6	7-11	0-6	7-11	0-6	7-11
Hydref 2022	409	327	215	205	14	24	143	40	31	10
	736		**420**		**38**		**183**		**41**	
					0-6	7-11				
Mai 2022					10	49				
					59					
Mai 2021	849	739	473	289	7	71				
	1,588		**762**		**78**					

Gellir esbonio'r gostyngiad dramatig yn nifer y datganiadau ym mlynyddoedd 7-11 gan a) nifer y disgyblion â datganiadau sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 a b) nifer y disgyblion â datganiadau sy'n trosglwyddo i flwyddyn 12 (16 disgybl).

Eglurir y ***cynnydd*** yn nifer y Datganiadau yn y sector blynyddoedd cynnar/cynradd (0-6) gan nifer y disgyblion â Datganiad/Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal a symudodd i Geredigion yn ystod y cyfnod Mai 21 – Hydref 22. Dim ond 1 disgybl â datganiad a gynhelir gan Geredigion a symudodd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn ystod y cyfnod, ond symudodd 6 disgybl i Geredigion a chyhoeddwyd 2 ddatganiad gan Geredigion yn ystod y cyfnod Mai 21 a Hydref 22.

Bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY yn y blynyddoedd cynnar sy'n adlewyrchu nifer y disgyblion sy'n dechrau yn ein hysgolion ag anghenion mwy dwys a chymhleth, a hefyd effaith Covid ar allu'r ysgol i sicrhau ymateb graddedig a llawn ac ymyrraeth a darpariaeth ADY lawn yn ystod y flwyddyn.

Mae trawsnewid system ADY yn cael ei weithredu'n raddol, ac mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael effaith gadarnhaol. Bydd nifer y Cynlluniau Datblygu Unigol sy'n cael eu creu yn ystod y flwyddyn yn cael eu monitro'n ofalus gan sicrhau bod ysgolion yn cadw o fewn yr amserlen drawsnewid. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY/AAA yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus.			
Cam Gweithredu 5.4	Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau'r bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad.	**Swyddog Arweiniol: Catrin Petche, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Pob plentyn sy'n derbyn gofal wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion. Wedi ei dystio gan ddata ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol.			
Cynnydd 2021-22: At ei gilydd, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn dda. Mae tystiolaeth monitro fewnol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd o ran eu mynediad. Ni fydd unrhyw adrodd ar ddata diwedd Cyfnod Allweddol oherwydd Covid-19. Ar hyn o bryd mae 85 o blant Ceredigion mewn gofal ar y gofrestr; mae gan 32% o'r rhain ADY ac mae gan 10% ohonynt Gytundeb Adnoddau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Cynllun Dysgu Unigol neu Ddatganiad. Yn ogystal, mae 32 o blant sy'n derbyn gofal o awdurdodau lleol eraill y tu allan i'r sir wedi eu lleoli yng Ngheredigion. Mae gan 42% o'r rhain ADY sydd angen lefel ychwanegol o gymorth. Caiff y mwyafrif o'r disgyblion hyn eu haddysgu o fewn ein hysgolion prif ffrwd, fodd bynnag mewn rhai achosion mae angen darparu pecynnau cwricwlwm amgen er mwyn ateb anghenion y disgybl. Mae hyfforddiant chwarae'n seiliedig ar ymlyniad a chydberthynas ac ymarferion seiliedig ar drawma wedi cael eu datblygu ymhellach. Bu ffocws ychwanegol hefyd ar lesiant disgyblion. Mae pob ysgol wedi cael holiadur llesiant yr Awdurdod Lleol a phecyn cymorth llesiant. Mae hyn wedi cynyddu gallu staff ysgol i ddeall ac ateb anghenion ymlyniad mwy o ddisgyblion. Caiff effaith hyn ei monitro dros y flwyddyn nesaf. Mae hyfforddiant pellach wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2022/23.			

Cam Gweithredu 5.5	Byddwn yn helpu dysgwyr o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad i'r cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial ac yn gwella eu cyrhaeddiad.	**Swyddog Arweiniol: Carole Price, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyrraeth ar gyfer ysgolion a dargedwyd a gweithredu wedi ei gydlynu rhwng rhanddeiliaid o fewn yr Awdurdod Lleol. 5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 1% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy. 64% o ddisgyblion ar god C-E, ac o'r rhain mae 61% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).			
Cynnydd 2021/22: 9.5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 3.4% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy. 77.7% o ddisgyblion ADY ar god C-E, ac o'r rhain mae 56.9% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E). Rydym wedi sylwi bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar gynnydd Dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol, ond mae'r data yn dal yn gadarnhaol o ystyried y canlyniadau a nodir uchod.			
Cam Gweithredu 5.6	Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi eu targedu i blant sy'n cael prydau ysgol am ddim.	**Swyddogion Arweiniol: Vanessa Bowen / Gwion Dafydd, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Hyfforddiant a dargedwyd wedi ei ddarparu ar gyfer ymyraethau e.e. rhifedd, iaith, ADY, sgiliau meddwl. Hyfforddiant hefyd yn cefnogi'r defnydd effeithiol o Hafan a chymhwystra Prydau Ysgol Am Ddim o fewn Asesiad Proffil. Cynadleddau yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymyrraeth ar Fwlio, Llais y Plentyn, Iechyd a Llesiant.			
Cynnydd 2021-22: Mae ysgolion a lleoliadau wedi derbyn hyfforddiant i dargedu anghenion pellach megis Iaith a Llafaredd. Mae ysgolion a lleoliadau wedi derbyn hyfforddiant llawn ar newidiadau ADY.			

Cam Gweithredu 5.7	Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol.	**Swyddog Arweiniol: Nia James, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Byddwn yn gwella adeiladau ysgol yn ôl yr angen ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol.			
Cynnydd 2021/22: Dim diweddariadau wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau yn y cynlluniau hygyrchedd ysgolion.			
Cam Gweithredu 5.8	Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.	**Swyddog Arweiniol: Mary Davies, Ysgolion a Diwylliant**	**Gwyrdd**
Canlyniadau: Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ei le ac yn parhau tan 2021 hyd nes y cyhoeddir Cynllun Strategol 2022-2032. Mae'r Cynllun wedi ei weithredu a'r canlyniadau wedi eu monitro.			
Cynnydd 2021-22: Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 yn amlinellu'r amcanion allweddol er mwyn cyflawni hyn. Cymeradwyodd Aelodau Cabinet Ceredigion gynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 ym mis Chwefror 2022.			
Cam Gweithredu 5.9	NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen. NEET – byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd mewn pob contract caffael y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant sy'n cael eu creu yn cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.	**Swyddog Arweiniol: Gethin Jones a Mark Gleeson, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**
Canlyniadau: Dau gwrs newydd wedi cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth cwricwlwm amgen ers Medi 2019.			

Cynnydd da yn cael ei wneud, holl gontractau caffael CSC yn cynnwys buddion cymunedol fel gofyniad craidd.
Caiff cynnydd ei fesur pan fydd data blynyddol NEET ar gael.

Cynnydd 2021-22:

Rydym wedi cyrraedd yr adeg honno o'r flwyddyn lle rydym yn canolbwyntio ar gasglu data ar ymadawyr Blwyddyn 11. Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid a Gyrfa Cymru i dargedu ymadawyr sydd heb benderfynu ar yrfa. Mae HCT yn cynnig Twf Swyddi Cymru+ (JGW+), sef rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed sy'n rhoi'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad y byddai eu hangen ar bobl ifanc i gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae ein rhaglen Cwricwlwm Amgen wedi datblygu gweithdy arall sydd wedi ei leoli yng nghanol y sir yng Nghwrtnewydd sy'n cynnig y ddarpariaeth hon i ysgolion yn ne'r sir. Rydym yn disgwyl ffigurau uwch eleni oherwydd y pandemig ac un maes sy'n peri pryder yw iechyd meddwl pobl ifanc sy'n rhwystr mawr i gyflogaeth a hyfforddiant.

Mae'r tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn parhau i gynnig rhaglenni cymorth pwrpasol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.

O'r 520 o achosion presennol:

- 74% o achosion yn rhai 'agored i niwed', 15% yn 'gymhleth', a 10% yn 'gyffredinol'
- Roedd cyfartaledd o 160 o ddisgyblion yn cael cymorth wythnosol gan Weithiwr Ieuenctid yn yr ysgol, a Mentoriaid Sgiliau yn cefnogi 150 o ddisgyblion ychwanegol bob wythnos.
- Roedd 170 o ddisgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio/cael eu gwahardd wedi cymryd rhan mewn prosiectau wedi'u targedu wythnosol fel Pathways, Phoenix Course, Tonic Surf ac ati.
- Ar gyfartaledd, roedd 75 o blant a phobl ifanc yn cael mynediad i weithgareddau cyffredinol ac allgwricwlaidd wythnosol (clybiau ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid a rhaglenni cymunedol)
- Cafodd 105 o bobl ifanc 16-18 oed a 76 o bobl ifanc eraill rhwng 18-25 oed eu cyfeirio at y tîm gwaith ieuenctid cymunedol oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar eu llwybr i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, megis camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a digartrefedd ieuenctid.
- Cafodd 90 o weithdai eu darparu gyda 66 o bobl ifanc yn dechrau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn llwyddiannus a 48 o bobl ifanc yn adrodd cynnydd o ran hunan-effeithiolrwydd a hyder.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei bolisi ar fuddion cymunedol a rhoi canllawiau i dendrwyr ar gyfer contractau mwy y cyngor. Mae canllawiau buddion cymunedol wedi eu darparu ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordirol Aberaeron, gwelliannau i Ysgol Uwchradd Aberteifi, ysgol newydd Dyffryn Aeron ac Ysgol Gynradd Aberteifi.

Cam Gweithredu 5.10	Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol a chydnabod buddion bod ar-lein.	**Swyddog Arweiniol: Denise Owen, Porth Cymorth Cynnar**	**Oren**
Canlyniadau: Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar gyfer Dysgu Bro. Mwy o bobl dros 50 oed wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol. Mwy o bobl dros 50 oed ag anabledd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol.			
Cynnydd 2021-22: Gyda'r pandemig a chyfyngiadau'r cyfnod clo yn effeithio ar ddosbarthiadau, ni chyrhaeddwyd y targedau hyn. Yn ystod y cyfyngiadau clo darparwyd dosbarthiadau ar-lein i bobl, gan gynnwys dosbarth i bobl dros 65 oed. Mae'r dosbarth hwn wedi ailddechrau wyneb yn wyneb erbyn hyn ac mae rhai dysgwyr hŷn yn dychwelyd (ar-lein ac wyneb yn wyneb), ond nid yn y niferoedd a welwyd cyn y pandemig. Rydym yn dal i ddarparu gliniaduron i'w defnyddio gartref ac mae hyn wedi bod yn fanteisiol i lawer o ddysgwyr ar draws amrywiaeth o bynciau. Rydym hefyd yn darparu 5 gwers am ddim i'r rhai sy'n newydd i ddosbarthiadau sgiliau digidol.			
Cam Gweithredu 5.11	Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol.	**Swyddogion Arweiniol: Alwyn Davies, Porth Cymorth Cynnar**	**Gwyrdd**
Canlyniad: Mwy o wirfoddolwyr/prosiectau cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau.			
Cynnydd 2021-22: Mewn partneriaeth â Phobl Ifanc Actif a Chwaraeon Cymru rydym yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr i ddysgu sut i addasu/cynnwys eraill mewn gweithgareddau chwaraeon a chorfforol. Mae 108 o Lysgenhadon Ifanc Efydd eisoes wedi cael eu hyfforddi mewn Cynhwysiant Anabledd, a byddant yn arwain sesiynau gweithgareddau corfforol cynhwysol. Mae 12 arall i ddilyn. Yn ogystal, mae 13 o Lysgenhadon 'Chwarae i Bawb' mewn Unedau ADY yn yr ysgolion uwchradd wedi eu hyfforddi mewn sgiliau arweinyddiaeth.			

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad:	**6 Rhagfyr 2022**
Amser:	**10:00am**
Teitl:	**Adborth gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas ag adroddiad monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22**

Bu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystyried adroddiad monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 yn eu cyfarfod ar 23 Tachwedd 2022. Mae cynllun gweithredu yn sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni o dan bum Amcan Cydraddoldeb. Adroddwyd mai dyma'r ail adroddiad blynyddol ynghylch cynnydd Cynllun 2020-2024, ac mae'r system lliwiau (BRAG) yn dangos pa mor dda y mae cam gweithredu'n perfformio neu'n cael ei gyflawni, o gymharu â'r llynedd.

Argymhelliad

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Strategol 2021-22 y Cyngor ac argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad ar 6 Rhagfyr 2022.

Y Cynghorydd Keith Evans

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu